Cyngor Sgiliau'r Sector ar gyfer
Cemegau, Fferylleg, Niwclear, Olew a Nwy, Petroliwm a Pholymerau

www.cogent-ssc.com

Mae'r **Diwydiant Polymerau** yn cynnwys:

- Prosesu plastigion
- Cynhyrchion rwber (gan gynnwys cynhyrchu ac ailwadnu teiars a thiwbiau rwber)

Mae'r Sector Polymerau yn cynnwys pedwar maes ar wahân: Prosesau Plastigion, Prosesu Rwber, Prosesu Cyfansoddau Polymerau a Gwneud Arwyddion. Mae dros 7,500 o gwmnïau yn gweithio o fewn y sector, gan gyflogi rhyw 286,000 o weithwyr. Mae'r nifer hwn yn codi i tua 400,000 os ystyrir cwmnïau sy'n prosesu polymerau fel gweithred eilaidd i'w prif fusnes. Mae'r diwydiant yn ddynamig iawn, ac yn dueddol o brofi nifer o newidiadau a chyfleoedd o ganlyniad newid technolegol, datblygiad defnyddiau a thechnoleg prosesu newydd, ac nid yn lleiaf, datblygiad cynhyrchion newydd a newidiadau mewn anghenion defnyddwyr.

Mae ar y diwydiannau angen arloeswyr, technolegwyr, cynllunwyr a thechnegwyr sgiliau uchel, i'w galluogi i aros ar y blaen gyda datblygiadau a newidiadau yn y galw byd-eang am gynhyrchion a chymwysiadau sy'n fwy hyblyg, â phwysau ysgafn, sy'n costio'n llai ac sy'n arbed ynni.

Defnyddir cynhyrchion a darnau cydrannol a ddatblygir gan ddefnyddio polymerau, mewn nifer o sefyllfaoedd. Mae'r galw yn cynnyddu bob blwyddyn.

* Awyrofod * Modurol * Morol * Amddiffyn * Meddygol * Trydanol * Electronig * Adeiladu * Cludo * Nwyddau traul a Nwyddau tŷ * Hamdden

Darlun economaidd o'r Diwydiant Polymerau[1]

Diwydiant	Trosiant	Gwerth Ychwanegol Crynswth (GYC)[2]	GYC y gweithiwr
Cynhyrchion plastig	£18.07bn	£6.57bn	£37,107
Cynhyrchion rwber	£1.69bn	£0.74bn	£37,050
			Cyfartaledd
Cyfansymiau	**£19.76bn**	**£7.31bn**	**£37,102**

Manylion y diwydiant[3]

Mae'r Du yn y **5 gwlad uchaf** Prosesu Plastigion yn yr Undeb Ewropeaidd

Mae gwerthiant y diwydiant Plastigion yn gyfrifol am **2.1%** o Gynnyrch Mewnwladol Crynswth y DU

Mae Proseswyr Plastigion y DU yn defnyddio **4.8 miliwn tunnell fetrig o ddefnyddiau**

Mae defnydd pacio yn gyfrifol am **36%** o'r defnydd

Mae'r DU yn cynhyrchu **2.5 miliwn tunnell fetrig o blastigion** y flwyddyn

Yn 2004, roedd cyflog yr awr cyfartalog yn y DU a'r UDA yn $22.9 o'i gymharu â Tsieina, sef $1

Mae'r diwydiant Cyfansoddau yn fywiog gyda thwf rhagweledig o **4%** y flwyddyn

[1]Ymchwiliad Busnes Blynyddol 2005 - data wedi'u rhyddhau Fis Mehefin 2007, ar gael gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol
[2]GYC yw'r gwahaniaeth rhwng gwerth nwyddau a gwasanaethau a gynhyrchir a chost nwyddau crai ac eitemau mewnbwn eraill a ddefnyddir yn ystod y cynhyrchu
[3]Ffederasiwn Plastigion Prydain (BPF) www.bpf.co.uk

Gweithlu'r Diwydiant Polymerau[4]

Dosraniad y Gweithlu	
Nifer o Gyflogwyr[5]	7,500
Nifer o Weithwyr[5]	276,000•
Oedran y gweithlu	
– 16-24	10%
– 25-34	22%
– 35-44	27%
– 45-54	25%
– 55+	16%
Ethnigrwydd	
– Gwyn	94%
– Heb fod yn wyn	6%
Rhyw	
– Benywaidd	21%
– Gwrywaidd	79%

Dosraniad galwedigaethau	
Rheolwyr ac Uwch Swyddogion	20%
Galwedigaethau Proffesiynol	4%
Proffesiynol a Thechnegol Cysylltiol	9%
Gweinyddol ac Ysgrifenyddol	8%
Galwedigaethau Crefftau Medrus	15%
Galwedigaethau Gwerthu a Gwasanaethau Cwsmeriaid	2%
Gweithwyr Prosesau, Offer a Pheiriannau	35%
Galwedigaethau Elfennol	7%

• Gall amcangyfrifon o'r diwydiant fod yn fwy na data gweithwyr yr Ymchwiliad Busnes Blynyddol oherwydd gweithlu contractwyr a chyfyngiadau SIC

Y Bwlch Sgiliau[5]

Y Bwlch Sgiliau yn y Diwydiant Polymerau



Mae gorgyflenwad o bobl â chymwysterau S/NVQ level 1 ac yn is, o'i gymharu â nifer y swyddi yn y lefel hon yn y diwydiant Polymerau.

Mae swyddi elfennol yn cynrychioli dim ond 7% o'r holl weithlu.

Mae 36% YN ORMOD o bobl â chymwysterau S/NVQ lefel 1.

Mae diffyg o bobl â chymwysterau S/NVQ level 2 a 3, o'i gymharu â chyfran y swyddi yn y lefelau hyn yn y Diwydiant Polymerau.

Mae galwedigaethau lefel 2 a lefel 3 yn cynrychioli 69% o'r Diwydiant Polymerau.

Mae DIFFYG o 29% o bobl â chymwysterau S/NVQ lefelau 2 a 3.

Rhestriad y Dosbarthiad Diwydiannol Safonol (SIC)[6]

Y Diwydiant Polymerau yn ôl cod SIC:	25.13	25.21	25.22	25.23/1	25.23/2	25.24

[4]Arolwg o'r Gweithlu, Ionawr 2006 - Rhagfyr 2006
[5]Amcangyfrifon Cogent o'r Diwydiant
[6]Y Swyddfa Ystadegau Gwladol - Dosbarthiad Diwydiannol Safonol (SIC) 2003

Manylion Cyswllt

Cyfeiriad y swyddfa:
Cogent SSC Cyf, Uned 5,
Mandarin Court, Centre Park,
Warrington, Cheshire WA1 1GG

Cyfeiriad e-bost
research@cogent-ssc.com

Gwefan
www.cogent-ssc.com

POL006

Mae'r data'n ddilys tan Fis Mehefin 2008